# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 13.06.18 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Ian Williams (Cadeirydd), Huw Davies, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, Malcolm Hills, John Griffiths, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Dylan Thomas, David Griffiths.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd cofnodion o'r cyfarfod (AGM) a gynhaliwyd ar y 09.05.18 yn gywir.
   **Cynnig** – Keith Carroll **Eilio** – Geraint Micah **Arwyddwyd** – Ian Williams.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol – AGM (09.05.18):**
   - **a)** **Is-gadeirydd** – cadarnhaodd Huw Davies nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiaeth i fod yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2018-19.
   - **b)** **Toiledau Cyhoeddus, Llwyngwril -** ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd -
     1. Trefniadau wedi eu gwneud i ail osod y Deilsen Grib ar dô'r toiledau.
     2. Archwiliadau Cyngor Gwynedd ar graciau yn render y waliau'r toiledau yn cadarnhau nad ydynt o fath arwyddocaol ac nid oes cyfiawnhad am waith adfer ar yr adeg yma.
     3. Bydd y gwaith torri gwair yn digwydd yn unol â rhaglen yr uned waith – dim dyddiad penodol ar gael.
   - **c)** **Croesfan Llwybr y Perthi –** ateb wedi ei dderbyn gan NWR yn cadarnhau eu bod wedi trefnu'r gwaith atgyweirio.
   - **d)** **Bin Baw Cwn ger Croesfan Llwybr y Perthi** - dal i aros am ateb ynglŷn ag adnewyddu'r polyn sydd yn dal y bin
     **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd eto !!

5. **Gohebiaeth:**
   - **a)** Llun wedi ei dderbyn (21.05.18) gan Mr Meirion Black, Hendre, yn dangos difrod ychwanegol i'r wal derfyn rhwng y cae chwarae ag yr Hendre. Cyngor Cymuned heb dderbyn ymateb i'r cynnig diwethaf a roddwyd iddo ar ôl y cyfarfod diwethaf (09.05.18), ynglŷn â cheisio sortio problem y wal derfyn yma allan.
     Cadeirydd wedi derbyn dogfennau "Trosglwyddiad" y Cae Chwarae i'w arolygu.
   - **b)** **Cyngor Gwynedd** - Rhaglen Waith Mis Mehefin 2018 wedi ei derbyn.
   - **c)** **BHIB** – cadarnhad fod yswiriant y Cyngor Cymuned yn effeithiol o 01.06.18.
   - **d)** **Un Llais Cymru** - Agenda Mis Mai 2018 a chofnodion Mis Chwefror 2018, wedi eu derbyn.
   - **e)** **Dail Dysynni** – cais am gyfraniad ariannol wedi ei dderbyn
     **Penderfyniad** ➞ pawb yn cytuno cefnogi'r cais yma **= £25.00. Cynnig:** Geraint Edwards **Eilio:** John Griffiths.

6. **Materion Cynllunio:**
   - **NP5/69/ADL277B - Glanaber, Llwyngwril -** Caniatâd Hysbysebi arddangos un arwydd ffasgia heb ei oleuo ac un arwydd ymwthiol heb ei oleuo
     **Penderfyniad** ➞ dim sylwadau/gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i gyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. **Adroddiad Ariannol**: Derbyniwyd Adroddiad Mis Mai yn gywir.

**Cynnig –** Geraint Edwards **Eilio –** Keith Carroll **Arwyddwyd –** Ian Williams.

- **a)** Adolygiad ariannol wedi ei wneud.
- **b)** Ad-daliad TAW wedi ei dderbyn = £298.40
- **c)** Derbynneb wedi ei dderbyn gan Bwyllgor y Ganolfan am y rhent am y flwyddyn = £100.00
- **d)** Derbynneb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd am ddarpariaeth y toiledau cyhoeddus = £2,000.00
- **e)** Siec i'w wneud i Dail Dysynni = £25.00
- **f)** Ffurflen flynyddol yn diweddu 31.03.18 wedi ei chyflwyno i'r cyngor cymuned, wedi ei chymeradwyo a'i arwyddo gan y Cadeirydd, Ian Williams, ar ran yr aelodau.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol - Louise Hughes :**
   - Fferm Castell Mawr, Llanegryn: canlyniad cais cynllunio (NP5/69/16C) heb ei dderbyn eto.
   - Wal gynnal ar yr Allt ger Friog: wedi derbyn cadarnhad fod y gwaith wedi ei gomisiynu ond dyddiad cychwyn y gwaith heb gael ei gadarnhau.
   - Golau ym maes parcio'r orsaf: ddyddiad i gychwyn y gwaith heb gael ei gadarnhau.

10. **Unrhyw Fater Arall:**
- **a) GDPR:** Aelodau wedi derbyn cyflwyniad a hyfforddiant ar "Reoliad Ddiogelu Data Cyffredinol" gan Malcolm Hills.
- **b) Toiledau Cyhoeddus:** Adroddiad a gwybodaeth wedi eu derbyn gan Keith Carroll ynglŷn â gosod blychau arian i ddefnyddio'r toiledau cyhoeddus yn Llwyngwril.
- **c) Biniau Halen:** Kevin Goodchild wedi cynnig arolygu sefyllfa'r biniau halen Mis Medi/Hydref.
- **d) Croesfan y Crynwyr:** adroddiad wedi ei dderbyn fod camera wedi ei osod ger y groesfan – ?? gan bwy a pham??
- **e) Meinciau Rhoslefain a Llwyngwril:** angen côt o baent !
  **Penderfyniad** ➞ Keith Carroll wedi cynnig gwneud y gwaith yma.
- **f) Japanese Knotweed:** yn broblem sy'n gwaethygu yn y pentref…..
  **Penderfyniad** ➞ hysbysu Cyngor Gwynedd, a gofyn beth yw eu polisi nhw ar ddifa'r chwyn yma mewn pentrefi.
  ➞ hysbysu Parc Cenedlaethol Eryri a gofyn am eu cyngor a beth yw eu polisi nhw, ag os oes unrhyw brosiect ar y gweill, neu grantiau ar gael i geisio lleihau'r broblem.
- **g) Tŷ Nant, Llwyngwril:** cwynion wedi eu derbyn ynglyn a mynediad newydd, a bod wal newydd wedi ei hadeiladu ochr allan eu terfyn, sydd yn affeithio eiddo cyhoeddus. ? Oes cais cynllunio wedi ei geisio am fynediad newydd?
  **Penderfyniad** ➞ hysbysu Cyngor Gwynedd, a'r Parc Cenedlaethol Eryri.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher - 11.07.18 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………… Dyddiad ………………………………**